| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **13 Mawrth 2025** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Tîm Datblygu Economaidd a Busnes** |
| **Teitl** | **Strategaeth Economaidd a Chynllun Gweithredu Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Datblygu Strategaeth Economaidd newydd a Chynllun Gweithredu ategol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am ddatblygiad Strategaeth Economaidd ddrafft newydd Sir Ddinbych a'r Cynllun Gweithredu ategol.

2.2. Egluro sut mae'r strategaeth flaenorol a'r strategaethau newydd yn cysylltu â gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a phartneriaid datblygu economaidd eraill i gefnogi'r economi yn Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau'r canlynol:

3.2. Mae'n fodlon y bydd y Strategaeth Economaidd ddrafft newydd a'r Cynllun Gweithredu ategol yn cyfrannu at y Cynllun Gweithredu a'i fod wedi

ymgysylltu’n effeithiol gydag Aelodau, Swyddogion, partneriaid a chymunedau busnes lleol.

3.3. Mae’n cytuno bod digon o feddwl wedi’i roi i’r ffordd y bydd y Strategaeth newydd a’r Cynllun Gweithredu yn parhau i gysylltu â gwaith partneriaid economaidd allweddol.

## 4. Manylion yr adroddiad

*4.1. Cefndir a manylion y gwaith a wnaed*

4.2. Rhoddwyd tasg i’r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes arwain ar ddatblygu’r Strategaeth Economaidd newydd, fel rhan o flaenoriaeth gorfforaethol ‘Sir Ddinbych Ffyniannus’, gan ddatblygu briff (Atodiad 1) a arweiniodd at benodi SQW i gynorthwyo â’r gwaith.

4.3. Diben y Strategaeth Economaidd yw i gyflawni o ran elfen “Sir Ddinbych Ffyniannus” Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae’r Cyngor eisiau cefnogi adferiad economaidd a manteisio ar gyfleoedd i alluogi trigolion i gael mynediad at gyflogaeth ac incwm da. Hefyd mae yna ddyhead i ddefnyddio twf economaidd fel sbardun i leihau anghydraddoldeb a thlodi.

4.4. Ffurfiwyd Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi’r datblygiad, gan gynnwys aelodau a oedd yn cefnogi pob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau a swyddogion perthnasol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ar 5 Mehefin 2024. Mae’r Cylch Gorchwyl (Atodiad 2) yn amlinellu cwmpas gwaith y Grŵp ac mae’n cynnwys cytuno ar y dull datblygu; cefnogi datblygiad, ac yn y pen draw, cytuno ar y dogfennau drafft terfynol cyn penderfyniad gan y Cabinet.

4.5. Mae’r datblygiad wedi’i rannu’n dri cham:

4.6. Cam 1 – deall cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau economaidd y Sir (dadansoddiad SWOT). Mae hwn yn rhan bwysig o’r gwaith oherwydd mae’n rhoi dealltwriaeth i ni o’r materion dan sylw ac mae’n darparu rhesymeg glir dros ddatblygu’r Strategaeth. Roedd y cam hwn yn cynnwys trafodaethau un i un, gweithdai’n seiliedig ar leoedd a gweithdy terfynol gyda swyddogion a budd-ddeiliaid allanol.

4.7. Cam 2 – datblygu'r Strategaeth Economaidd ei hun (Atodiad 3). Roedd hyn yn cynnwys datblygu 'fframwaith strategol' fel a lywiwyd gan chwe blaenoriaeth wreiddiol CSDd a'r cam SWOT. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriadau gydag arweinwyr strategol a dau weithdy gydag Aelodau a budd-ddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol. Roedd SQW yn glir bod angen i'r fframwaith strategol gael effaith a bod yn gryno, a daethpwyd i'r casgliad bod modd rhannu chwech o'r blaenoriaethau gwreiddiol yn bedair ardal 'strategol', a gwnaed cysylltiadau â strategaethau a pholisïau presennol hefyd.

4.8. Cam 3 – datblygu'r Cynllun Gweithredu, fel rhan o'r ddogfen Strategaeth Economaidd, gan roi cyfarwyddyd i'r Cyngor o ran sut i gyflawni amcanion y Strategaeth. Mae Cynllun Gweithredu lefel uchel wedi'i lunio (Atodiad 3), yn dilyn sesiwn gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen ar 10 Chwefror. Mae'r cam hwn yn dal i fynd rhagddo a bydd yn cynnwys rhagor o drafod gydag arweinwyr gweithredu er mwyn datblygu camau penodol a chyflawnadwy a fydd yn cynnwys amcangyfrifon cost lle bo'n bosibl.

*4.9. Y Camau Nesaf*

*4.10.* Gorffen datblygu'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys ystyried darpariaeth, gofynion cyllidebol, a threfniadau llywodraethu a monitro.

*4.11.* Cwrdd â'r Grŵp Tasg a Gorffen i gytuno ar y Strategaeth Economaidd ddrafft derfynol a'r Cynllun Gweithredu.

*4.12.* Mynychu cyfarfod llawn y Cabinet i gael cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth derfynol a'r Cynllun Gweithredu er mwyn galluogi eu gweithredu a'u darparu. Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2025 ar hyn o bryd.

*4.13. Cysylltiadau â phartneriaid economaidd*

*4.14.* Bydd y Strategaeth newydd yn atgyfnerthu'r angen i CSDd barhau i gysylltu a phlethu â gwaith partneriaid economaidd, fel gyda'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol flaenorol. Mae enghreifftiau o gysylltiadau'r Strategaeth flaenorol â phartneriaid economaidd yn cynnwys:

*a)* Llywio trafodaethau cynnar CSDd â Uchelgais Gogledd Cymru a'r Fargen Dwf, yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â chludiant a safleoedd cyflogaeth allweddol.

*b)* Dilyn trafodaethau a chyfleoedd gyda Llywodraeth Cymru (LlC), yn enwedig o ran Parc Busnes Llanelwy a'u rhaglen Trawsnewid Trefi, gan arwain at nifer o fuddsoddiadau i adfywio Canol Trefi.

*c)* Gweithio gyda Llywodraeth y DU, gan arwain at dri chais llwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Bro a chael mynediad at Gyllid y Gronfa Ffyniant Cyffredin.

4.15. Mae ein dull o weithio gyda phartneriaid economaidd o ran y Strategaeth newydd yn dal i gael ei ddatblygu, ond bu ymgysylltu cynhwysfawr gydag amrywiaeth o bartneriaid economaidd yn ystod y datblygiad, gan gynnwys: Uchelgais Gogledd Cymru; LlC; Cynghorau Tref a Dinas; Grwpiau Busnes Canol Tref; Cyngor Busnes Gogledd Cymru; Grŵp Llandrillo Menai; Prifysgol Wrecsam; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC); Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych; Cadwyn Clwyd; Sgwâr y Dref; y Ffederasiwn Busnesau Bach; a nifer o fusnesau lleol.

4.16. Nodwyd bod gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol yn flaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth ddrafft er mwyn helpu i ddatblygu economi Sir Ddinbych, ac mae'n ffurfio rhan o ddull 'Tîm Sir Ddinbych' dan y Cynllun Gweithredu lefel uchel. Bydd arweinwyr gweithredu yn helpu i roi rhagor o fanylion am hyn wrth i'r Cynllun Gweithredu barhau i gael ei ddatblygu fel rhan o ddatblygiad cam 3 parhaus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd y Strategaeth Economaidd newydd a'r Cynllun Gweithredu yn cyfrannu'n uniongyrchol at 'Sir Ddinbych Ffyniannus' yn y Cynllun Corfforaethol, trwy gefnogi twf economaidd; datblygu cynllun i dyfu busnesau Sir Ddinbych yn y dyfodol a darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau dyfu a helpu cymunedau lleol i ffynnu.

5.2. Disgwylir iddynt wneud cyfraniad cadarnhaol at nod y Cyngor o fod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, oherwydd bydd cysylltiadau rhwng y Strategaeth hon a'r Strategaeth Hinsawdd a Natur.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae cost datblygu'r Strategaeth Economaidd a'r Cynllun Gweithredu yn cael ei thalu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, ac amser staff yw'r unig gost.

6.2. Pan fydd y Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu, bydd yn nodi amcangyfrifon cost lle bo'n bosibl ar gyfer pob un o'r camau a gytunwyd, gan ganiatáu i'r Cyngor a phartneriaid allweddol ddechrau deall y goblygiadau cyllidebol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Cynhaliwyd gweithdy Asesiad o'r Effaith ar Les ar 20 Chwefror 2025, a bydd y casgliadau'n cael eu crynhoi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 3 Mawrth 2025.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto, ond fel rhan o'r gwaith hwn, bu ymgysylltiad cynhwysfawr yn fewnol gydag Aelodau a swyddogion trwy'r Grŵp Tasg a Gorffen, yn ogystal â phartneriaid allanol, fel a nodir dan 4.15.

8.2. Cynhaliwyd proses drylwyr ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Les, a gwahoddwyd 14 o fudd-ddeiliaid mewnol ac allanol i gymryd rhan mewn trafodaeth ar 20 Chwefror 2025.

8.3. Bu'r tîm datblygu mewn cyfarfod gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd ar 6 Mawrth i drafod cynnydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid yw partneriaid economaidd allweddol yn ymgysylltu â'r Cyngor ar y Strategaeth a Chynllun Gweithredu a gytunwyd. Nid yw hyn yn debygol, oherwydd y lefelau uchel o ran ymgysylltiad yn ystod y broses ddatblygu.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisi.